CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2020/21

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Carwyn Jones
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Seiriol

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Is-Bwyllgor Indemniadau | |
| Pwyllgor Adfywio | |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru -<br><br>- Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Llandegfan | - Trafod y sector yng Ngogledd Cymru a ffyrdd o gydweithio<br><br>- Cadeirydd y Corff Llywodraethu, gweithio gyda'r Pennaeth a'r llywodraethwyr eraill er mwyn |

| | |
|---|---|
| | cefnogi'r ysgol i ddarparu'r addysg orau. |
| - Llywodraethwr / Ysgol David Hughes | - Aelod o YDH ac eistedd ar y panel cyllid a phersonél |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn lleol, mae'r sefyllfa Covid wedi dominyddu ac fe wnes fy ngorau i helpu i rannu'r negeseuon a thawelu meddyliau pobl leol er mwyn eu helpu drwy'r pandemig. Un o nodweddion allweddol y cyfathrebu oedd gweithio â thîm golygyddol y Pâl/Puffin ar rifyn arbennig o'r cylchgrawn a oedd yn gwbl ddwyieithog ac yn llawn gwybodaeth er mwyn helpu pobl drwy Covid, roedd hyn yn ystod y cyfnod clo cyntaf pan roedd pryderon ar eu mwyaf. Cawsom gyllid gan Medrwn Môn ac roeddem yn gallu cyhoeddi bron i 5,000 o gopïau a sefydlu cyfrif gyda'r Post Brenhinol er mwyn eu dosbarthu.

Nodwedd allweddol arall oedd y gefnogaeth a roddwyd i Gynghrair Seiriol er mwyn sefydlu'r 'Cynllun Tro Da' a'r cyllid grant drwy Gyngor Môn i'r diben hwn. Mae'r cynllun tro da wedi chwarae rôl allweddol yn lleol er mwyn helpu'r rhai mwyaf bregus yn ystod Covid a thu hwnt.

Mynychu Cynghorau Cymuned Llanddona, Cwm Cadnant, Llangoed a Phenmon yn rheolaidd yn ogystal â Chyngor Tref Biwmares.

Wedi helpu â nifer o faterion personol yn ymwneud â thai, gofal cymdeithasol a materion megis priffyrdd ac iechyd amgylcheddol.

Un mater sydd wedi bod angen sylw ers nifer o flynyddoedd oedd yr angen am amddiffynfa llifogydd yn Llansadwrn ac roeddwn yn falch iawn pan lwyddodd CSYM i sicrhau tua £80,000 ar gyfer y cynllun, cafodd y gwaith hwn ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac er nad yw'n berffaith mae wedi gwella'r sefyllfa heb os.

Yn dilyn y gwaith llifogydd, llwyddais i gael cyfraniad gan y contractwr Griffiths er mwyn prynu diffibriliwr ar gyfer Llansadwrn a drwy weithio â Chwm Cadnant, sydd wedi bod yn rhagorol, fe wnaethom lwyddo i gael yr hen giosg BT er mwyn cadw'r uned a chyllid gan y cyngor cymuned a gyda llawer o waith fe lwyddwyd i gwblhau'r prosiect.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

O fewn fy rôl portffolio Morwrol, roeddwn yn falch o allu sicrhau a goruchwylio'r buddsoddiad o £220,000 ym Mhier Biwmares.

Fel yr Aelod Portffolio Economi a Thwristiaeth mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn ddigynsail wrth orfod cau ac amddiffyn ar y dechrau ac yna cefnogi'r Ynys i ail agor

yn ddiogel. Pan gafodd mesurau eu llacio fe wnes i arwain ar ymgyrch i ail ddarganfod Ynys Môn yn ddiogel gydag ymgyrch cyhoeddus ar y mesurau allweddol i'w dilyn er mwyn gallu mwynhau ymweliad mewn modd diogel a chyfrifol.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn fwy heriol na dim un ers i mi ddechrau fel Cynghorydd yn Seiriol yn 2013. Rhaid i mi fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl weithwyr allweddol yn Ward Seiriol a thu hwnt sydd wedi parhau i weithio ar y rheng flaen o'r diwrnod cyntaf a drwy gydol y pandemig, mae ein diolch a'n dyled yn fawr i'r bobl hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Carwyn Jones

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Carwyn Jones** | **Mehefin 2021** |